PedalPower

the cycling charity for all

yr elusen seiclo i bawb

# Adroddiad Blynyddol 2022/2023

## Cyflwyniad gan Sian Donovan, Cyfarwyddwr



*"Weithiau mae dal ati, dim ond dal ati, yn gyflawniad uwch-ddynol." - Albert Camus.*

I bawb, mae'r byd ôl-bandemig yn parhau i gyflwyno llu o heriau ychwanegol - o effaith barhaus y rhyfel yn Wcráin a'r prisiau ynni uchel, i'r argyfwng o ran costau byw sydd fel petai'n ddiddiwedd. Ac eto, trwy gydol y flwyddyn eithriadol hon o aflonyddwch byd-eang, prif weinidogion yn ymddiswyddo a marwolaeth y Frenhines Elizabeth II, rwy'n falch o ddweud bod tîm Pedal Power wedi llwyddo, rywsut, i ymdopi, parhau i wasanaethu ein cwsmeriaid, a hyd yn oed wedi llwyddo i gael rhai cyflawniadau cadarnhaol.

- Yn ystod yr haf poethaf (rhy boeth i symud!), cafodd dŵr a thrydan eu gosod yn ein safle yn y Bae – digwyddiad o bwys ar ôl brwydr hir a chaled!
- Cafodd yr UNIG daith seiclo gynhwysol a thorfol yng Nghymru - Seiclo i Bawb - ei chynnal ar lwybrau seiclo'r brifddinas, gyda thros 100 yn cymryd rhan.
- Daeth cyfnod o densiwn ariannol i'n helusen i ben yn dilyn ceisiadau llwyddiannus am gyllid gan Sefydliad Motability, y Loteri Genedlaethol a Chronfa Gymunedol y Principality ymhlith eraill. Mae hyn yn golygu ein bod dechrau'r flwyddyn ariannol newydd (2023/24) gydag optimistiaeth a nifer o aelodau staff newydd!

Heb os, bydd rhagor o heriau yn y flwyddyn i ddod, ond mae Pedal Power yn gryfach nag erioed a byddwn yn parhau i lwyddo! Ymroddiad a gwaith caled ein staff, yr ymddiriedolwyr a'n gwirfoddolwyr sydd i'w gyfrif am hyn gan eu bod wedi ymateb i bob her ar hyd y ffordd mewn modd penderfynol a phositif gan gadw golwg bob amser ar ddyfodol seiclo cynhwysol.

> *"Mae bywyd fel mynd ar gefn beic. I gadw'ch cydbwysedd, rhaid dal ati i symud."*
>
> *Albert Einstein.*

## Adroddiad y Cadeirydd—Peter Harding

Mae arwain Bwrdd yr Ymddiriedolwyr dros y pum mlynedd diwethaf, yn ogystal ag ysgrifennu'r cyflwyniadau i'r adroddiadau blynyddol hyn yn ystod fy nghyfnod fel Cadeirydd, wedi bod yn fraint ac yn anrhydedd.

Gan fyfyrio ar bopeth y mae Pedal Power wedi'i gyflawni yn ystod y cyfnod hwn, rwyf yn ategu'n llwyr y teimladau a fynegwyd yn yr adroddiad hwn gan ein Cyfarwyddwr, Sian Donovan. Mae Sian wedi galluogi'r sefydliad i fod yn hyblyg, gan addasu i'r amodau cymdeithasol ac economaidd heriol yr ydym ni a'n cymunedau wedi'u hwynebu. Rydym wedi parhau i ddod o hyd i ffyrdd newydd o gefnogi ein staff, ein gwirfoddolwyr, yr ymwelwyr a'r rhai sy'n cymryd rhan yn ein gweithgareddau. Rydym yn parhau i gael effaith o bwys ar y rhai sy'n cymryd rhan, ac mae'n hanfodol ein bod yn parhau i ddatblygu ein gwaith gwerthfawr ymhellach dros y blynyddoedd nesaf.

Mae'r bartneriaeth rhwng y Bwrdd Gweithredol a'r Ymddiriedolwyr yn Pedal Power wedi ein galluogi i dyfu mewn cyfnod anodd dros ben yn ystod ac ar ôl y pandemig. Mae hyn wedi ein rhoi mewn sefyllfa ariannol fwy cadarn a chreu sylfaen gref ar gyfer y dyfodol. Mae Sian wedi galluogi ei thîm i gyflawni llwyddiannau rhyfeddol drwy weithio gyda phartneriaid, rhanddeiliaid a gwirfoddolwyr. Hoffwn dalu teyrnged iddi hi a'i thîm am eu gwydnwch, eu positifrwydd a'u hymroddiad. Diolch hefyd i'm cyd-ymddiriedolwyr am eu cefnogaeth, ac am arwain ar feysydd pwysig o waith llywodraethu.

Yn 2023, rydym yn dathlu 21 mlynedd fel elusen gofrestredig. Yn ystod y cyfnod hwn rydym wedi datblygu fel sefydliad i fod yn adnodd cymunedol gwerthfawr ac unigryw sydd â rôl ganolog ym maes seiclo cynhwysol a theithio llesol yng Nghaerdydd a thu hwnt. Ni fyddai ein cyflawniadau wedi bod yn bosibl heb gefnogaeth ein cyllidwyr. Rydym yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru, Cyngor Caerdydd, Motability ac i'r cyrff eraill a nodir yn yr adroddiad hwn.

Rydym yn parhau i ymrwymo i ddatblygu ein rôl a'n cylch gwaith ymhellach. Byddwn yn gweithio'n ddiflino gyda'n partneriaid i gyflawni hyn, gan hyrwyddo pwysigrwydd a gwerth seiclo cynhwysol a theithio llesol yng Nghymru.

## Rhestre yr Ymddiriedolwyr


- Peter Harding – Chair
- Steve Cox – Treasurer
- Ed Evans
- Pat Ruddock
- Cathryn Ferris
- Naomi Brightmore
- Tony Hendrickson
- Michael Walsh
- Malcolm Eames

## Mae fy mab yn awtistig...

Mae Pedal Power wedi rhoi profiad eithriadol i fy mab wrth iddo ddysgu seiclo yn hyderus. Nid oes unman arall tebyg iddo a allai ei addysgu mewn modd mor fedrus na roi'r sylw 1:1 a'r gefnogaeth sy'n cofleidio amrywiaeth ac sydd wedi ymrwymo i gynhwysiant. Roedd ei athro, Robyn, yn rhagorol wrth roi sgiliau, cefnogaeth ac anogaeth i'm mab, ond mewn modd oedd yn ystyried ei anghenion bob amser. Mae'n golygu bod fy mab a minnau bellach yn gallu seiclo gyda'n gilydd am y tro cyntaf erioed. Mae'n golygu bod fy mab wedi llwyddo a chyflawni.

## Ein Gweledigaeth

Bydd Pedal Power yn cael ei ystyried y lle cyntaf i droi ato yn yr ardal leol pan fydd trigolion, cymunedau, sefydliadau gofal ac ymwelwyr, beth bynnag fo'u hoed, gallu neu gefndir, am gael cyfleoedd i gymdeithasu a gwella eu hiechyd a'u lles drwy seiclo.

## Ein Cenhadaeth

Rydym yn annog ac yn galluogi pobl o bob oed a gallu i fwynhau manteision seiclo.



"Rydw i nawr yn gallu reidio heb fy 'stabilisers' a gwibio heibio'n gyflym iawn. Rydw i wrth fy modd yn reidio fy meic."

Fe gawsom dros £15,000 mewn rhoddion arian parod ym mlwyddyn ariannol 22/23. Cawsom hefyd 216 o feiciau ail law a gafodd eu had-newyddu gennym a'u gwerthu

## Sut rydyn ni'n gweithio

Gan ein bod yn elusen, nid ydym yn cael unrhyw gyllid craidd. Felly, rydym yn dibynnu ar incwm yr ydym yn ei gynhyrchu ein hunain, rhoddion preifat (arian parod untro yn bennaf, archebion sefydlog rheolaidd/misol a gwerthu beiciau ail law a roddwyd i ni), yn ogystal â grantiau a chyllid ar gyfer prosiectau a mentrau penodol gan gyrff ariannu perthnasol. Ar hyn o bryd mae gennym 16 o aelodau staff amser llawn a rhan-amser yn ogystal â gwirfoddolwyr sy'n darparu ein gwasanaethau.

Rydym yn cynhyrchu ein hincwm ein hunain drwy'r ffrydiau incwm canlynol:

- Llogi Beiciau
- Ffioedd Aelodaeth
- Gwersi 1:1 ac i Grwpiau
- Gwerthu beiciau wedi'u hadnewyddu sydd wedi'u rhoi i ni
- Atgyweirio beiciau a rhoi gwasanaeth iddyn nhw
- Caffi yn safle Pontcanna
- Gwerthu ein beiciau arbenigol

Gweler [LINK] am fanylion ariannol

## Gwasanaethau Seiclo

Mae poblogrwydd cynyddol Teithio Llesol yn amlygu manteision seiclo – ac rydym yn credu bod yn rhaid i seiclo fod yn gynhwysol. Gan fod gennym amrywiaeth eang o feiciau, yn ogystal â phrofiad ac arbenigedd o weithio gyda phobl o bob oed a gallu, mae Pedal Power yn parhau i chwarae rhan hanfodol ac arwyddocaol wrth roi cyfleoedd i seiclo i bobl Caerdydd a'r ardaloedd cyfagos.

## Gwasanaethau Aelodaeth

Rydym yn gweithio'n galed i feithrin ymdeimlad o gymuned. Mae ein model aelodaeth yn cefnogi'r seiclwyr hynny a allai fod angen gofalwr neu aelod o'r teulu arnynt i fynd gyda nhw, ac felly'n eu hannog i gymryd rhan yn y gweithgaredd yn amlach. Mae bod yn aelod yn golygu eu bod yn cael asesiadau cyson, hyfforddiant am brisiau is, prosesau rhatach a mwy hwylus o logi beiciau, yn ogystal â beic rhad ac am ddim i ofalwr neu aelod o'r teulu sy'n rhoi cymorth, os oes angen.

Mae ein staff a'n gwirfoddolwyr wedi'u hyfforddi i feithrin perthynas â'n cwsmeriaid a dangos sensitifrwydd i bob unigolyn a'u hanghenion. Ein nod yw dileu'r holl rwystrau tybiedig a ffisegol sy'n atal pobl rhag seiclo drwy ddarparu:

Roedd gennym 1,211 o aelodau ar 31 Mawrth 2022

Eleni, cafodd 11,830 o sesiynau llogi beiciau eu trefnu gan ein haelodau (gan gynnwys beiciau i ofalwyr) ar draws y ddau safle

- Asesiadau i argymell y beic/treic a'r ategolion gorau
- Sesiynau Dysgu Seiclo i bobl o bob oed a gallu
- Sesiynau Magu Hyder ac ymarfer sgiliau
- Sesiynau seiclo cymdeithasol cynorthwyol ar gyfer lefelau gallu amrywiol
- **Llawer o anogaeth!!**

## Llogi Cyffredinol

Yn ogystal â'n model aelodaeth sydd wedi'i gynllunio i gefnogi seiclwyr anabl, rydym yn cynnig gwasanaeth llogi beiciau sydd ar gael i bawb. Mae gennym dros 150 o feiciau ar gael i'w llogi gan gynnwys E-feiciau Cymorth, E-feiciau Cargo, E-dreiciau a beiciau 2 olwyn o'r safon uchaf mewn amrywiaeth o feintiau, gan gynnwys rhai i blant. Rydym hefyd yn darparu beiciau tagalongs, bygis a seddi plant, gan olygu bod teuluoedd cyfan yn cael mwynhau seiclo; yn ogystal â helmedau, cloeon ac os oes angen, poncho sy'n gwrthsefyll dŵr (rydym yng Nghymru, wedi'r cwbl). Gall Pedal Power ddiwallu pob math o anghenion seiclo!

Ni yw'r unig gyfleuster llogi beiciau yng Nghaerdydd sy'n gallu darparu niferoedd mawr o feiciau ar gyfer grwpiau, ac mae wedi bod yn braf gweld grwpiau mwy o Ewrop yn dychwelyd yn raddol, yn enwedig o Wlad Belg a Ffrainc.

**Ar draws ein dau safle, cafodd 3,545 o sesiynau llogi beiciau cyffredinol eu trefnu eleni. Wrth eu hystyried ochr yn ochr â'r sesiynau llogi gan aelodau, mae hyn yn gyfanswm o 15,375 o deithiau seiclo i gyd!**

Cafodd cyfanswm o 216 o feiciau a roddwyd i ni eu hailgylchu a'u gwerthu, ac aeth yr elw tuag at gefnogi'r elusen. Fe wnaethom hefyd lwyddo i roi nifer o feiciau plant i elusen yr Wcráin ac i Oasis.

## Cynnal a thrwsio

Mae cynnal ein beiciau a'u trwsio yn waith caled. Mae angen gwybodaeth arbenigol ar gyfer ein hamrywiaeth eang o feics, gan mai diogelwch a chynnig profiad seiclo pleserus yw ein blaenoriaeth. Mae pob un o'n mecanics yn cael hyfforddiant ac yn ennill profiad o weithio gyda beiciau addasol ac ategolion. Mae hyn yn golygu bod pob mecanic sy'n ymuno â'n tîm yn cyfoethogi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o feiciau – dyma uwchsgilio arbenigol ar ei orau.

- Rydym yn cynnig gwasanaethau cynnal a thrwsio i'r cyhoedd hefyd ac mae gennym enw da yn y maes
- Mae adnewyddu ac ailwerthu beiciau sydd wedi'u rhoi i ni yn fodd o godi arian i'r elusen, darparu beiciau fforddiadwy, yn ogystal â lleihau gwastraff mewn safleoedd tirlenwi
- Ar gyfer beiciau sy'n cael eu rhoi i ni nad oes modd eu huwchgylchu, rydyn ni'n stripio'r rhannau a'u rhoi i elusen Cardiff Rivers fel sgrap – does dim byd yn cael ei wastraffu!
- Mae cynllun marcio diogelwch Heddlu De Cymru yn parhau i weithio gyda ni i amlygu'r angen am ddiogelwch, gwaetha'r modd, gan fod nifer y beiciau sy'n cael eu dwyn wedi cynyddu'n sylweddol. Rydym yn cynnig sesiynau 'asesu iechyd' Dr Bike ar yr un pryd, yn rhad ac am ddim

Ni yw'r gwerthwr mwyaf yng Nghymru ar gyfer beiciau addasol gan gynnwys Van Raam, Ice Trike, Hase, HP Velotechnik, PF Mobility, Mission a Hugbike, ymhlith eraill

## Gwerthu ar ran cwmnïau beiciau

We Rydym wedi parhau i feithrin cysylltiadau â gweithgynhyrchwyr er mwyn cryfhau ein statws fel gwerthwr ar gyfer llawer o'n beiciau, ac rydym wedi ychwanegu beiciau Van Raam at ein rhestr eleni. Rydym yn hapus iawn â'r trefniant ac yn credu ei bod yn bwysig bod pobl yn gallu dod i'n safle a rhoi cynnig ar fodelau cyn ystyried eu prynu.

## Hyfforddiant

Ein nod bob amser yw cael gwared ar unrhyw rwystrau i seiclo, ac un o'n prif gryfderau yw asesu a yw beic yn addas ar gyfer anghenion yr unigolyn. Mae ein haelodaeth yn gwneud yn siŵr y cynhelir asesiadau ac ailasesiadau yn rheolaidd, ac mae galw mawr ar ein Swyddogion Seiclo profiadol i roi'r gwasanaeth hwn.



Yn yr un modd, mae dysgu sut i seiclo a magu hyder yn sgiliau y mae angen eu dysgu mewn modd arbennig o sensitif ac amyneddgar, yn enwedig i oedolion a phlant ag anghenion ychwanegol. Rydym hefyd yn falch iawn o groesawu nifer cynyddol o bobl hŷn sy'n dechrau seiclo neu'n ailgydio ynddo, naill ai mewn ymateb i broblemau iechyd, materion amgylcheddol, neu'r ddau! Mae ein E-feiciau Cymorth a'n beiciau cam isel yn hynod boblogaidd ymhlith y grŵp hwn ac mae hyn, yn ei dro, yn cefnogi pob ymdrech i hyrwyddo dulliau teithio llesol yn gyffredinol.



Rydym hefyd yn parhau i gynnal nifer o'n sesiynau seiclo cymdeithasol gyda chymorth gwirfoddolwyr. Roeddem yn falch iawn o allu mynd â beiciau i Ysbyty Llandochau, lle buom yn gweithio gyda chleifion ar y ward Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn. Aethom hefyd â threiciau gorwedd i'r Uned Anafiadau Cefn er mwyn i gleifion a staff elwa'n uniongyrchol.

Fe effeithiodd cyfyngiadau ariannol ar gapasiti ein Swyddogion Seiclo, ond buom yn brysur dros ben er gwaethaf hynny!



Fe wnaethom gynnal 509 o sesiynau Dysgu Seiclo a daeth 584 o bobl i'n sesiynau Magu Hyder. Hefyd, fe wnaethom gynnal dros 100 o sesiynau blas ar seiclo a chymdeithasol gyda thua 462 o bobl yn cymryd rhan

## Caffi

Mae ein caffi yn parhau i chwarae rôl hanfodol. Mae'n cynnig lluniaeth am bris rhesymol yn ogystal â man cymdeithasol croesawgar lle gall pobl ymlacio a theimlo'n gartrefol, heb unrhyw bwysau i brynu na gadael.

Mae ein man awyr agored wedi'i orchuddio'n rhannol, ac felly'n addas ar gyfer gwahanol anghenion, ac mae'r ardd hynod liwgar a llawn aroglau sy'n ein hamgylchynu yn annog bywyd gwyllt.



- Mae gennym nifer o grwpiau sy'n cwrdd yn rheolaidd yn ein caffi erbyn hyn – United Friends, Headway, Pontcanna Over 60s, grwpiau cerdded lleol, ac mae Scope bellach yn cynnal sesiynau sgwrsio bob pythefnos.
- Mae hyn ar ben ein sesiwn galw heibio i ganu bob dydd Mawrth, ac ymweliadau gan gitaryddion o Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru ar ddydd Gwener.

Mae ein Hysbysfwrdd Cymunedol yn helpu i roi gwybod i bawb am ddigwyddiadau lleol a gwasanaethau cefnogi, ac mae ein Celf yn y Caffi yn ysgogi'r dychymyg ac yn cefnogi artistiaid lleol.

Defnyddir y man fel stiwdio hefyd pan fydd yr artistiaid lleol Nikki ac Alice yn cydweithio ag Ymddiriedolaeth Innovate i wneud propiau ar gyfer Carnifal Butetown, yn ogystal â chymuned Indonesia Cymru a weithiodd gyda'r artist Andy Bolton ar eu murlun. Dyluniwyd y murlun gyda phobl anabl, ac mae bellach yn ein safle yn y Bae.






## Prosiect – Cyllid Cyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer SeE Cycling Differently

Fe wnaeth arian Llywodraeth Cymru ein galluogi i brynu 35 o E-Feiciau

Prosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru yw SeECycling Differently. Mae wedi ein galluogi i brynu E-Feiciau (gan gynnwys E-Feiciau, E-Dreiciau a beiciau E-Cargo) i ategu a gwella'r ystod eang ac amrywiol o feiciau sydd gennym eisoes. Mae nodwedd e-gymorth E-Feiciau yn agor drysau i lawer o'n cwsmeriaid gan ei bod yn eu galluogi i seiclo am gyfnod hirach, mynd ymhellach ac yn sicr mynd ar dir mwy serth!





Felly, mae hyn yn helpu i gael gwared ar fwy o rwystrau i seiclo ac yn mynd i'r afael ag anghenion y rhai sydd wedi'u hanablu gan salwch neu anaf. Mae hefyd yn rhoi'r hyder i deithio ymhellach, yn enwedig i'n cwsmeriaid hŷn. Mae ein E-Feiciau yn hynod boblogaidd, yn ogystal â'n sesiynau blas ar seiclo rhad ac am ddim, sy'n galluogi pawb i roi cynnig arni!

## Gwirfoddolwyr

Mae gennym wirfoddolwyr sy'n ein cefnogi mewn sawl maes craidd gan gynnwys llogi beiciau, y caffi a'r dderbynfa. Mae gennym wirfoddolwyr hefyd sy'n cefnogi ein sesiwn gerddoriaeth wythnosol, cynnal holiaduron ac mae gennym nifer cynyddol sy'n rhoi cefnogaeth ar gyfer sesiynau seiclo cymdeithasol a sesiynau magu hyder, gan gynnwys gweithio gyda SightLife a pheilota tandemau. Rydym yn deall bod y rhan hon o'n gwasanaeth yn bwysig dros ben er mwyn annog pobl i ddechrau seiclo neu wneud mwy o seiclo yn eu bywydau bob dydd.

Mae ein gwirfoddolwyr seiclo yn chwarae rhan bwysig fel modelau rôl.

Mae hyd at 40 o wirfoddolwyr yn gweithio gyda ni yn rheolaidd

## Cefnogi Gweithwyr a Sefydliadau

Post Ar ôl y pandemig, yr her o hyd yw ailsefydlu cysylltiadau â sefydliadau a allai fod wedi gweld newidiadau o ran staff. Mae Pedal Power yn parhau i geisio creu cysylltiadau cryf gydag ysgolion arbennig, colegau, cartrefi gofal a sefydliadau cymunedol trydydd sector yng Nghaerdydd, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf a thu hwnt. Rydym yn annog ymweliadau a sesiynau blas ar seiclo bob amser gan mai dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o helpu pobl i ddeall beth sydd gan Pedal Power i'w gynnig. Mae ein sesiynau blas ar E-Seiclo rhad ac am ddim yn parhau i fod yn boblogaidd a byddwn bob amser yn gwneud yn siŵr bod gennym amser i ddangos pobl o gwmpas ac esbonio ein gwasanaethau.

## Pobl a Digwyddiadau

We Roeddem wrth ein bodd ein bod wedi gallu cynnal Seiclo i Bawb eleni. Y nod yw cynnig digwyddiad seiclo cymdeithasol a chynhwysol, y gall ein haelodau gymryd rhan ynddi yn rhad ac am ddim. Ar ben hynny, drwy annog seiclwyr eraill o bob oed a gallu i gymryd rhan a chefnogi, mae'r digwyddiad yn helpu i'n gwneud yn fwy amlwg yn y brifddinas.

Mae dwy elfen i'r daith, sef y brif daith drwy ganol y ddinas, a thaith fyrrach o amgylch y parc. Yn bwysicaf oll, mae pawb yn ymuno ar y diwedd am rywfaint o luniaeth ysgafn ac eleni cawsom y cyfle i fwynhau perfformiad byrfyfyr gan drwmpedwyr o Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

Cymerodd dros 100 o bobl i gyd ran yn ein digwyddiad Seiclo i Bawb eleni, gyda chymorth ein staff a gwirfoddolwyr



- Fe wnaethom hefyd gynnal digwyddiadau gyda'r ASau, Lee Waters a Huw Irranca-Davies, yn bresennol; cawsom ein gwahodd i gyflwyno yn nigwyddiad Teithio Llesol a Chynaliadwy Julie Morgan AS, a menter Symud Mwy, Bwyta'n Iach Iechyd Cyhoeddus Cymru; fe wnaethom roi cyflwyniad i Gymdeithas Ddinesig Rhiwbeina; a chymryd rhan yng Nghynhadledd Heneiddio'n Iach.
- Fe wnaethom barhau i chwarae rôl gyda'r Grŵp Trawsbleidiol ar gyfer Teithio Llesol, y Tasglu Anabledd, Trawsnewid Cymru a Thrafnidiaeth Cymru, a gynhaliodd ddiwrnod hyfforddi gyda ni, ymhlith nifer o gyfarfodydd eraill, i wella eu dealltwriaeth o seiclo cynhwysol.
- Ymwelodd cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru a Chadwch Gymru'n Daclus â'n safle yn y Bae i weld ein gardd gymunedol sy'n addas ar gyfer peillio. Pleser hefyd oedd gwneud cysylltiad â chymuned Indonesia Cymru drwy'r artist murluniau Andy Bolton. Mae eu murlun cyntaf wedi'i osod yn ein safle yn y Bae erbyn hyn, a bydd rhagor o waith yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

## Ein Dyheadau

⇒ Parhau i gynnal a chryfhau ein perthynas â sefydliadau sy'n elwa o'n gwasanaeth, gan gynnwys yr holl sefydliadau sy'n gysylltiedig ag iechyd. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn cael ein defnyddio'n llawn fel adnodd ar gyfer dulliau ataliol a chefnogol yng nghyd-destun iechyd gan leihau'r pwysau ar y GIG yn sgîl hynny.

⇒ Parhau i geisio bod yn rhan o'r holl gynlluniau ar gyfer Teithio Llesol. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi ymdrechion i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd drwy annog newid mewn dulliau teithio a sicrhau bod dyfodol seiclo yn cynnwys pobl o bob oed a gallu.

⇒ Parhau i chwilio am amrywiaeth o ffynonellau cyllid i roi sefydlogrwydd ariannol i'r elusen, gan alluogi twf a datblygiad wrth inni barhau i fynd i'r afael ag anghenion seiclo cynhwysol Caerdydd a thu hwnt.

## Partnerships: & Collaborations

- Llywodraeth Cymru
- Cyngor Caerdydd (parhau i ariannu ein gwasanaethau i Oedolion am flwyddyn arall)
- Trafnidiaeth Cymru
- Prifysgol Caerdydd
- Met Caerdydd
- Women Connect First
- Canolfan Datblygu Cymunedol De Glan-yr-afon (SRCDC)
- Elderfit (annog pobl hŷn i seiclo)
- Beicio Cymru – Reidiau Breeze
- Ymddiriedolaeth Innovate (sesiynau crefft a chymryd rhan yng Ngharnifal Butetown)
- Canolfan Mileniwm Cymru (Carnifal Butetown)
- Cymdeithas Indonesia Cymru
- SCOPE
- MS Society
- Leonard Cheshire (Diwrnod Rhagflas)
- Wizzkidz
- Iechyd Cyhoeddus Cymru (Symud Mwy, Bwyta'n Iach)
- Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru
- Galluogi ysgolion i fanteisio ar ein gwasanaethau yn ein prif leoliad ac ymweld â'u safleoedd gan gynnwys Tŷ Coch, Red Rose, Ysgol y Deri, Headlands, Woodlands, Tŷ Gwyn, Riverbank, Glan Taf, Treganna, St Teilos
- Cefnogi Bigmoose Supertri gyda 60 o blant yn cymryd rhan
- Heddlu De Cymru
- Waterfront Partners (rydym wedi tanysgrifio gyda'r grŵp hwn i gael y newyddion diweddaraf am ddatblygiadau busnes yn ardal y Bae)
- Mae Pedal Power yn parhau i gydweithio'n agos ag ysgolion, colegau a sefydliadau eraill i ddarparu ein gwasanaethau a chynnig deilliannau gwell i unigolion a chymunedau.
- Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Chyngor Caerdydd, Llywodraeth Cymru, CGGC a C3SC hefyd er mwyn cael gafael ar bob cymorth posibl er budd dyfodol yr elusen.
- Gweithio mewn Partneriaeth Ledled Cymru - rydym wedi cynnal ein cysylltiad â chydweithwyr o Fforwm Seiclo Cynhwysol Cymru (a sefydlwyd yn 2013) i hyrwyddo seiclo cynhwysol ledled Cymru gyda Chwaraeon Anabledd Cymru, Bikeability Abertawe, Pedal Power Wrecsam, Cycling UK (CTC gynt) a Sustrans. Rydym hefyd yn paratoi Cyfeiriadur Seiclo Cynhwysol ar gyfer ein gwefan i helpu i greu cysylltiadau cryfach rhwng sefydliadau a hwyluso pobl i gael mynediad at seiclo cyhwysol ledled Cymru

PedalPower

the cycling charity for all

yr elusen seiclo i bawb


**Manylion Cyswllt**

02920 390713

bookings@cardiffpedalpower.org.uk

www.cardiffpedalpower.org

Parc Carafannau Caerdydd,

Pontcanna,

Cardiff CF11 9JJ